

# Cylchlythyr y Nadolig

2025-2026



# Christmas Newsletter

# Neges wrth y Pennaeth
# A message from the Headteacher

Tymor Arbennig o Lwyddiant ac Ysbryd

Am dymor gwirioneddol arbennig a chofiadwy fu hwn! Wrth i'r tymor Nadolig agosáu, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch o galon i holl staff, plant, rhieni a llywodraethwyr Sant Curig am eich gwaith caled a'ch ymroddiad di-ildio dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae'r Nadolig yn amser i ddathlu ac i fyfyrio, a gobeithio y cewch chi gyd amser am heddwch a llawenydd dros y cyfnod dathlu.

Mae'r plant ar draws yr ysgol wedi ymdrin â'u dysgu gydag awydd arbennig. Maent wedi gweithio'n ddiflino, gan ddangos ymrwymiad mawr ym mhob dosbarth, gyda llawer yn ymdrechu i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol. Mae tymor yr Hydref wedi bod yn llawn themâu cyffrous a digwyddiadau diddorol; diolch i bawb am eu cyfraniad brwd. Gallwch, wrth gwrs, ddarllen mwy am y profiadau anhygoel hyn ar dudalennau dilynol ein cylchlythyr. Roedd yn wych gweld cynifer o rieni'n cefnogi'r themâu dysgu yn yr ysgol. Cofiwch gadw llygad am fwy o gyfleoedd y tymor nesaf i ddod i mewn a dathlu llwyddiant gyda'ch plant!

Llongyfarchiadau diffuant i'n timau chwaraeon ymroddedig a gystadlodd mor frwd yn ystod y tymor. Diolch i'r staff am barhau i roi cyfleoedd arbennig i'n plant, yn enwedig gyda phêl-droed i fechgyn a merched. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at gefnogi ein timau pêl-rwyd a rygbi wrth iddynt ddechrau cystadlu yn ystod tymor y Gwanwyn. Diolch enfawr hefyd i'r plant a gefnogodd fenter 'Cyfeillion Curig', gan gasglu bwyd ar gyfer teuluoedd mewn angen dros y Nadolig—dangosiad hyfryd o ysbryd cymunedol.

Roedd ein gwasanaethau a'n cyngherddau Nadolig eleni yn wirioneddol wych, gan ddangos talent a gwaith caled anhygoel ein disgyblion. Cawsom wasanaethau traddodiadol hyfryd o'r Meithrin, y Derbyn, a Blynyddoedd 1 a 2, gyda'r plant yn adrodd yn glir ac yn canu'n hyfryd. Roedd hefyd yn bleser gweld y gwaith caled a'r creadigrwydd anhygoel a aeth i mewn i'n dau gyngerdd ar wahân ar gyfer yr uwch ddisgyblion. Cyflwynodd Blynyddoedd 3 a 4 berfformiad ffantastig, a rhoddodd Blynyddoedd 5 a 6 sioe fythgofiadwy.

Yn olaf, rwy'n gobeithio y cewch chi, ein teuluoedd cefnogol, Nadolig bendigedig. Mae'r staff eisoes wedi bod yn brysur yn cynllunio gweithgareddau cyffrous a diddorol ar gyfer y tymor nesaf, ac rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu yn ôl i Sant Curig ar Ddydd Mawrth, 6ed Ionawr.

Nadolig Llawen i bawb #TeuluCurig.

A Special Term of Success and Spirit

What a truly special and memorable term this has been! As the Christmas season approaches, I would like to take this opportunity to thank all the staff, children, parents, and governors of Sant Curig from the bottom of my heart for your hard work and unwavering dedication over the last few months. Christmas is a time for celebration and reflection, and I hope you all get time for peace and joy over the festive period.

The children across the school have approached their learning with a special eagerness. They have worked tirelessly, showing great commitment in every class, with many striving to speak Welsh around the school. The Autumn term has been full of exciting themes and interesting events; thank you to everyone for your enthusiastic contribution. You can, of course, read more about these amazing experiences on the following pages of our newsletter. It was wonderful to see so many parents supporting the learning themes in the school. Remember to keep an eye out for more opportunities next term to come in and celebrate success with your children!

Sincere congratulations to our dedicated sports teams who competed so enthusiastically during the season. Thank you to the staff for continuing to give our children special opportunities, especially with football for both boys and girls. We are already looking forward to supporting our netball and rugby teams as they start competing during the Spring term. A huge thank you also to the children who supported the 'Friends of Curig' initiative, collecting food for families in need over Christmas—a beautiful demonstration of community spirit.

Our Christmas services and concerts this year were truly splendid, showcasing the incredible talent and hard work of our pupils. We had lovely traditional services from Nursery, Reception, and Years 1 and 2, with the children reciting clearly and singing beautifully. It was also a pleasure to see the incredible hard work and creativity that went into our two separate concerts for the older pupils. Years 3 and 4 delivered a fantastic performance, and Years 5 and 6 put on an unforgettable show.

Finally, I hope that you, our supportive families, have a wonderful Christmas. The staff have already been busy planning exciting and engaging activities for next term, and we look forward to welcoming you back to Sant Curig on Tuesday, January 6th.

Merry Christmas to all #TeuluCurig.



# Blwyddyn 5



Am dymor prysur a chyffrous iawn! Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn ymchwilio i hanes y diwydiant glo yn Ne Cymru yn ogystal â datblygiad Dociau'r Barri.

Yn ogystal â'n gwersi dosbarth, a oedd yn datblygu ein sgiliau o fewn y chwe maes dysgu, fe gawsom hefyd ymweliad arbennig gan 'Brofiad Fictoraidd y Barri'. Roedd hyn yn gymorth i ni ddeall hanes lleol yn well. Yn ogystal, cawsom y cyfle i fynd i Amgueddfa Pwll Mawr i ddysgu sut roedd pwll glo go iawn yn gweithredu.

Ym mis Hydref aethom ar ein trip blynyddol i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog, lle wnaeth pawb fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a datblygu sgiliau newydd. Roedd e'n brofiad arbennig.

Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn astudio oes Fictoria, gan ddarganfod llawer o ffeithiau diddorol.

Mae'r cyfnod cyn y gwyliau hefyd wedi bod yn brysur gyda pharatoadau ar gyfer ein sioe Nadolig, ac mae pawb wedi bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at y perfformiad.

Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, ac diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.



*What a very busy and exciting term! Over the past few months we have been exploring the history of the coal industry in South Wales as well as the development of Barry Docks.*

*Alongside our classroom lessons developing our skills across the six areas of learning, we also benefited from a wonderful visit from the 'Barry Victorian Experience'. This helped us better understand local history, and we had the opportunity to visit Big Pit Museum to learn how a real coal mine operated.*

*In October we went on our annual trip to the Urdd Camp in Llangrannog, where everyone enjoyed a variety of activities and developed new skills. It was a special experience. Lately, we have been studying the Victorian era, discovering many interesting facts.*



*The period before the holidays has also been busy with preparations for our Christmas show, and everyone has been eagerly looking forward to the performance.*

*We would like to wish you all a Merry Christmas and a Happy New Year, and thank you for your support during the year.*

# Blwyddyn 6

Mae'r tymor cyntaf wedi hedfan heibio i ni ym Mlwyddyn 6! Cawsom llawer o hwyl yn ein taith preswyl i Lan-Llyn gan gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau hwylus ar y llyn megis paldfyrddio, canwio, ac adeiladu rafft.

Ein thema y tymor hwn oedd trychinebau'r byd lle gwnaethom ddadansoddi'r cwestiwn mawr, 'Sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar ein byd bendigedig?'. Gwnaethom ddatblygu dealltwriaeth dda o sut y gall gweithredoedd pobl, gan gynnwys ein gweithredoedd ni, wella neu niweidio'r amgylchedd. Llwyddom i gymharu trychinebau naturiol a dynol a sut mae'r trychinebau yma, megis llifogydd, daeargrynfeydd, a swnamis yn gallu effeithio cymunedau, gwledydd a'r byd cyfan.

Dysgom am drychineb ym Mhompeii ac ysgrifennom dyddiadur gan ddangos y teimladau a meddyliau yn ystod y cyfnod anodd. Llwyddom i greu podlediad gan ganolbwyntio ar 'Storm Claudia' â tharodd Cymru a Lloegr ym mis Tachwedd gan ddefnyddio Garage Band. Llwyddom i ddarganfod rhesymau o blaid ac yn erbyn datgoedwigo gan ddangos empathi tuag at y llwyth Awa a'r anifeiliaid sydd yn byw yn y coedwigoedd law. Cawsom hwyl yn ymarfer a pherfformio ein gwasanaeth Nadolig. Diolch i chi am fynychu a Nadolig Llawen i chi gyd!

The first term has flown by for us in Year 6! We had lots of fun on our residential trip to Glan-Llyn, taking part in many enjoyable activities on the lake such as paddleboarding, canoeing, and raft building.

Our theme this term was world disasters where we analysed the big question, *'How do our actions affect our wonderful world?'*. We developed a good understanding of how people's actions, including our own, can improve or damage the environment. We managed to compare natural and human-made disasters and how these disasters, such as floods, earthquakes, and tsunamis, can affect communities, countries, and the whole world.

We learned about the disaster in Pompeii and wrote a diary showing the thoughts and feelings during this difficult time. We successfully created a podcast focusing on 'Storm Claudia', which hit Wales and England in November, using GarageBand. We were able to explore reasons for and against deforestation, showing empathy towards the Awa tribe and the animals that live in the rainforests. We also had fun practising and performing our Christmas service. Thank you for attending and Merry Christmas to you all!



# Blwyddyn 2




Rydym wedi mwynhau ein tymor cyntaf ym mlwyddyn 2 ac rydym wedi bod yn brysur iawn yn y dosbarth yn gweithio'n galed ar ein sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Ein thema y tymor yma oedd 'Fi a fy myd'. Rydym wedi dysgu am rannau ac organau'r corff yn ein gwersi Gwyddoniaeth yn ogystal â dysgu sut i gadw ein cyrff, ein meddyliau a'n emosiynau'n iach. Fe fuon ni hefyd yn dysgu am y 5 synnwyr ac yn defnyddio ein sgiliau disgrifio i sôn am y pum synnwyr. Cawsom sawl sgwrs difyr yn defnyddio ein sgiliau Llais 21 i drafod llawer o bynciau'n ymwneud â ni ein hunain a'r byd o'n hamgylch. Roedd pawb wedi mwynhau dangos a thrafod ein bocsys trysor o flaen y dosbarth hefyd.

Cawsom hefyd y cyfle i ddarllen stori Susan Rees, merch y pwll glo. Cawsom hwyl yn defnyddio'r setiau VR i helpu ni i ddeall profiad Susan Rees o weithio o dan y ddaear yn y pwll glo ac i gymharu ein bywydau ni gyda phlant a oedd yn gweithio yn y diwydiant glo. Cawsom weithdy arbennig ar ein trip i Sain Ffagan. Fe ddysgon ni lawer am fywyd Ysgol yn Oes Fictoria.



Rydym hefyd wedi bod yn dysgu am swyddi pobl gwahanol yn ein cymuned. Daeth ymwelwyr i siarad gyda ni yn y dosbarth am eu gwaith ac fe ddefnyddion ni Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) i greu llun o'n hunain yn gwneud ein swyddi yn y dyfodol. Yn ein gwaith iaith fe ddefnyddion ni bartymau brawddegau ac ansoddeiriau i ysgrifennu brawddegau diddorol. Yn ein gwersi Mathemateg a rhifedd fe ddefnyddion ni Hwb i greu pictogram o swyddi a chreu siart rhicbren er mwyn casglu data. Hefyd rydym wedi bod yn brysur iawn yn defnyddio ein sgiliau rhif i ddatrys problemau ac i weithio'n galed yn ystod y cwis mathemateg. Roedd pawb yn wych yn adnabod darnau o arian ac yn defnyddio arian i greu cyfansymau yn ein siop chwarae rôl.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer ein gwasanaeth Nadolig. Roedd pawb wedi dysgu eu geiriau yn wych ac wedi mwynhau perfformio ar y llwyfan.

Rydym yn ddiolchgar iawn i chi fel rhieni a theuluoedd am eich cefnogaeth a gobeithiwn y cewch chi Nadolig dedwydd iawn.

We have had a wonderful first term in Year 2. It has certainly been a busy one, and the children have worked extremely hard to develop their literacy, numeracy, and digital skills.

Our theme this term has been *Me and My World*. In Science, we learned about different body parts, organs, and their functions, as well as explored the five senses. We also used our Voice 21 discussion skills to talk about many topics linked to ourselves and the world around us. Everyone thoroughly enjoyed showing and presenting the special items in their treasure boxes to the rest of the class.

A highlight of the term was our fantastic workshop during our trip to St Fagans, where we discovered what school life was like in the Victorian era. We used this experience to compare school in the past with school today.

As part of our history and literacy work, we also read the story of Susan Rees, a child who worked in a coal mine. We compared her life with our own and even used VR headsets to help us imagine what working in the mines would have looked and felt like.

We have been learning about different jobs in our community too. We welcomed visitors who shared information about their roles, and we enjoyed asking them questions. Using AI, we even created pictures of ourselves doing our dream jobs in the future.




In literacy, we focused on using a variety of sentence patterns and adjectives to make our writing more exciting. In numeracy, we used Hwb to create pictograms of our future jobs and developed our data-handling skills by making tally charts and bar graphs. Everyone has worked hard on using number skills to solve mathematical problems and to answer our quiz questions. We also enjoyed learning to recognise the value of different coins and using them to pay for items in our role-play shop.

We have also been busy preparing for our Christmas concert, and everyone thoroughly enjoyed performing on stage.

Thank you to all parents and families for your continued support. We wish you a very happy Christmas!

# Chwaraeon





**Pêl-Droed / Football**

Mae hi wedi bod yn dymor prysur i bêl-droed! Mwynhaodd tîm merched Blwyddyn 5 a 6 dwr-namaint 7 bob ochr yr Urdd tra bod tîm bechgyn Blwyddyn 5 a 6 wedi chwarae mewn twrnamaint 5 bob ochr Caerdydd a'r Fro.

It's been a busy term for football!
The Year 5 and 6 girls' team enjoyed a 7-a-side Urdd tournament while the Year 5 and 6 boys' team played in a Cardiff and Vale 5-a-side tour-nament.

**Rygbi / Rugby**

Mae wedi bod yn wych gweld llawer o chwaraewyr newydd yn ymuno ac yn mwynhau ein clwb rygbi y tymor hwn (er gwaethaf y mwd!). Mwynhaodd rhai o'r tîm gêm yn erbyn Ysgol Sant Baruc. Edrychwn ymlaen at fwy o gemau yn y flwyddyn newydd!



It's been great to see lots of new players join and enjoy our rugby club this term (despite the mud!) Some of the team enjoyed a game against Ysgol Sant Baruc. We look forward to more games and tournaments in the new year.

**Pêl-Rwyd / Netball**

Mae plant blwyddyn 5 a 6 wedi mwynhau y clwb pel-rwyd y tymor yma! Fe fwyn-haodd y criw aeth i dwrnamaint y clwstwr ym Mhen y Garth yn fawr. Edrychwn ni gyd ymlaen at bel-rwyd tymor nesaf!

Year 5 and 6 children have enjoyed the netball club this term. The group that went to the cluster tournament in Pen Y Garth really enjoyed it. We all look forward to netball next season!

**Traws Gwlad / Cross Country**

Ym mis Tachwedd, cynrychiolodd rhai aelodau o Flwyddyn 3 a Blwyddyn 5 yr ysgol yn ras traws gwlad Caerdydd, gan redeg 1.2km. Roedd pawb yn wych!

In November, a few members of Year 3 and Year 5 represented the school in the Cardiff Cross Challenge, running 1.2km. Everyone did a great job!





# Diolch …

Diolch i bawb a wnaeth helpu i godi arian tuag at 'Plant Mewn Angen'. Gwisgon ni ein pyjamas i'r ysgol a chodwyd £259.02 i'r elusen.

Thank you to everyone who helped raise money for 'Children in Need'. We all wore pyjamas to school and raised £259.02 for the charity

Diolch yn fawr iawn i Emyr Curry-Neilson, a gododd £130.51 drwy gerdded o Fae Caerdydd i Ynys y Barri ar hyd y llwybr arfordirol er mwyn cynrychioli'r ysgol. Diolch o galon, Emyr!

A huge thank you to Emyr Curry-Neilson, who raised £130.51 by walking from Cardiff Bay to Barry Island along the coastal path to represent the school. Thank you so much, Emyr!

Ar gyfer 'Diwrnod Gwisgo'n Melyn', codwyd £179.50 ar gyfer yr elusen 'Hello Yellow'.

For 'Wear Yellow Day' we raised £179.50 towards the charity 'Hello Yellow'.

Casglwyd nifer o eitemau bwyd er budd 'Banc Bwyd y Fro' diolch i bawb am eu cyfraniadau!

We collected many food items to give to the 'Vale Food Bank' thank you to everyone for their donations!

Diolch enfawr hefyd i'n Timau Codi Arian gwych a'n gwirfoddolwyr am eu holl waith caled yng ngardd yr ysgol a'r Ffair Nadolig.

A huge thanks also to our fantastic Fundraising Teams and volunteers for all their hard work in the school garden and Christmas Fair.

Diolch yn fawr iawn i *'Ffrindiau Sant Curig'* am wario £2,943.74 ar adnoddau ar gyfer pob blwyddyn. Bydd y plant yn defnyddio'r adnoddau hyn trwy gydol y flwyddyn ac rydym yn wirioneddol ddiolchgar am eich cymorth.

Thank you so much to *'Ffrindiau Sant Curig'* for spending £2,943.74 on resources for every year group. The children will enjoy and make great use of these resources throughout the year and we are truly grateful for your support.

Diolch yn fawr! / Thank you!

## Ffrindiau Garddio Sant Curig

Diolch yn fawr iawn am yr arian tuag at ein *'Parti Clwb Garddio Calan Gaeaf'*.
Llwyddon ni i godi £385.50.
Diolch i bawb am eich cefnogaeth!
Thank you very much for the money contributed towards our *'Halloween Gardening Club Party'*. We managed to raise £385.50.
Thank you to everyone for your support!

# Blwyddyn 3



Cylchlythyr Bl 3 Tymor 1 2025/26

Wel dyna beth oedd tymor prysur i ni gyd ym mlwyddyn 3!

Hoffem ddiolch i'r plant am eu hymdrechion yn ymgartrefu yn yr Adran Iau. Diolch hefyd am eu gwaith wrth i ni gysylltu gyda thema 'Y Celtiaid o Oes y Cerrig'. Llwyddom i ymweld a phrofi sawl Maes Profiad a Dysgu tymor megis:

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Adnabod ansoddeiriau drwy ddisgrifio. Dysgu ac ail adrodd stori ar lafar yn arddull Pie Corbett yn Saesneg. Llawer o waith llafar wrth ddilyn rhaglen ffoneg Saesneg Read Write Inc. Roedd cyflwyniadau 'Fy Mocs Trysor ' yn arbennig iawn a diolchwn i chi am ymarfer a pharatoi eu cyflwyniadau. Rhaid cofio ein Gwasanaeth Diolchgarwch a diolch eto i'r holl blant am ei hymdrechion.

Fe wnaeth pawb fwynhau ymweliad i Amgueddfa Sain Ffagan wrth daro heibio Bryn Eryr a dysgu mwy am fywyd cartref y Celtiaid. Rydym hefyd wedi dysgu rhai o brofiadau bywyd Y Celtiaid drwy gymharu bwydydd, dillad ac arfau.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg – Rydym nawr yn ymwybodol o bwysigrwydd bara a sut mae creu. Diolch i Mr Maddison am ei weithdy bara. Cawsom gyfle i arbrofi gyda Thechnoleg Bwyd gydag ein prosiect fusnes wrth baratoi a chreu jariau toes bisgedi. Diolch am eich cefnogaeth.

Roedd y profiad o fod yn rhan o Sioe Nadolig Blynyddoedd 3 a 4 yn werthfawr.

Amser nawr i edrych ymlaen at 'hoi' fach a dathlu dros y Nadolig a dychwelyd yn barod at dymor llawn hwyl, prysurdeb a chyffro yn y flwyddyn newydd.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i holl deuluoedd Blwyddyn 3.

*Well, what a busy first term we've all had in Year 3!*

*First, we wish to thank all the children for their efforts this term as they settled into the Junior Section. We also enjoyed exploring the theme of work, 'The Celts and the Stone Age' and had the opportunity to examine several Areas of Learning and Experience such as:*

*Languages, Literacy and Communication – We listened, read and recited a famous story verbally using Pie Corbett strategies which then allowed us to write our own version of the story. We have also benefitted from the 'Phonic Read Write Inc' scheme. 'My Treasure Box' presentations enabled the children to practise their oracy skills in Welsh.*

*Science and Technology was a strong presence as we planned our own designs for a Celtic round house and discussed different materials and their properties. We also had the opportunity to consider how bread is made. We now know how bread is produced thanks to Mr Maddison's bread making workshop. Our Business Week allowed us to use our numeracy skills in our Food Technology opportunities as we prepared our Christmas Cookie Dough Jars. Thanks to all with your support.*

*Everyone enjoyed our visit to St Fagans National Museum which allowed us to experience and compare how the Celts lived their daily lives and built their own homes.*

*Our Year 3 Harvest Festival Assembly was a great experience and our participation in Year 3 and 4 Christmas show was a valuable experience.*

*Time now to look forward and relax over the Christmas break and return ready for another fun filled, exciting and busy term in the New Year.*

*We wish all the families of Year 3 a Happy Christmas and a Fab New Year.*

Diolch / Thank you

Tim Dysgu Bl 3 / Year 3 Teaching Team






# Cyngor Siarter Iaith

# Welsh Language Council

Cyngor  Siarter Iaith

Llongyfarchiadau mawr i aelodau newydd y Cyngor Siarter Iaith eleni.

Mae'r tymor wedi bod yn un prysur wrth i ni ddathlu sawl agwedd o Gymreictod, megis Diwrnod Owain Glyndwr, Diwrnod Su'Mae/Shw Mae a Diwrnod T Llew Jones. Roedd cyfle i wahodd ein rhieni i berfformiadau Gwasanaethau Nadolig gan gynnwys y ffair Nadolig. Gweithiodd aelodau y cyngor ar y cyd gyda chynghorau eraill i greu Calendar Adfent Curig gwahanol at fis Rhagfyr a rhannwyd gyda ein rhieni. Roedd y cyfle i fod yn rhan o gwis rhyngweithiol eleni yn gyfle gwych i'r plant ddangos eu dealltwriaeth am Gymru - fe wnaeth pawb fwynau.

Fel rhan o'r cynllun datblygu rydym yn bwriadu cryfhau ein cysylltiadau gydag ysgolion lleol yn y gobaith o gyd-weithio ar brosiectau newydd gyda nhw yn nhymor y gwanwyn. Hefyd cawsom gyfle i ganu caneuon hen a newydd wrth ymweld ag archfarchnad leol ac eto yn ôl i ymweld ag ein trigolion lleol yn Nhŷ Gofal Sprigfield. Heb anghofio ein tasg i greu bathodyn newydd i gynllun Bwrlwm Manter Iaith Bro Morgannwg.

Edrychwn ymlaen at ail gyflwyno rhestr gerddoriaeth Cymraeg a fydd i'w fwynhau a'i chlywed ar hyd y coridorau a'r dosbarthiadau yn y Flwyddyn Newydd.

Os hoffech wrando ar gerddoriaeth Nadoligaidd Cymraeg dros yr Ŵyl cofiwch i wrando ar : https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m002mqnd





Say it in Cymraeg this Christmas….

| | | |
|---|---|---|
| Merry Christmas | Nadolig Llawen | Na-doh-lig lla-when |
| Happy New Year | Blwyddyn Newydd Dda | Bl-oi-ddin New-ydd Dd-ah |
| Present | Anrheg | Ann-rhh-eg |
| Star | Seren | Se-ren |
| Christmas Tree | Coeden Nadolig | Coy-den Na-doh-lig |
| Father Christmas | Siôn Corn | Shaun Corr-n |
| Snow Man | Dyn Eira | Dean Eye-rah |
| Reindeer | Carw | Ca-roo |
| Snow | Eira | Eye-rah |
| Christmas Dinner | Cinio Nadolig | Kin-yoh Na-doh-lig |
| Christmas Pudding | Pwdin Nadolig | Pww-din Na-doh-lig |
| Christmas Carols | Carolau Nadolig | Car-ol-ai Na-doh-lig |
| Stocking | Hosan | Hos-ann |
| Mince Pie | Mins Pei | Mince Pay |
| Decorations | Addurniadau | Add-irn-iad-ai |
| Angel | Angel | Ann-ghel |
| Holly | Celyn | Ceh-lynn |
| Lights | Goleuadau | Go-ley-add-ai |

menter iaith abertawe

Rhif Cwmni: 06693822

Nadolig Llawen!

Blwyddyn Newydd Dda!

Welsh Language Council

Congratulations to our new members of the council this year.

We have had a busy term celebrating several aspects of our heritage and language such as Owain Glyndwr Day, Diwrnod Su' Mae / Shw Mae and T Llew Jones Day. We were able to invite families into school to listen to several assemblies and the recent various Christmas Performances not forgetting our Christmas Fair. We collaborated with the other councils within the school to come up with an alternative Advent Calendar to consider this Christmas. Great Work! We also had a chance to participate in a on line quiz with other schools from across Wales which enabled the children to show their understanding about Welsh - Everyone enjoyed.

As part of the Welsh Charter Scheme, we propose to strengthen ties with other local schools and other local businesses which included performing traditional and modern Christmas songs at our local Asda supermarket and again visiting our local neighbours at Springfields Nursing Home. The Pupils also had an opportunity to create a new logo for the BWRLWM programme provided by Menter Iaith Bro Morgannwg.

We're looking forward to introducing a playlist of Welsh music to be listened to along the corridors and classes from the New year.

If you enjoy listening to Welsh music, you can always find great Christmas playlist: https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m002mqnd

# Dosbarth Derbyn



Wel am dymor prysur a hwyl yn y Dosbarth Derbyn! Mae'r plant wedi setlo i mewn i ysgol llawn amser yn arbennig o dda ac rydym wedi mwynhau dod i'ch adnabod yn fawr iawn!

Mae pawb wedi joio dysgu pethau newydd a chwrdd â ffrindiau newydd. Rydym wedi joio'r cyfle i chwarae'n anturus ac wedi mwynhau cael y cyfle i fwynhau'r ardal allanol gan joio dringo a chwarae yn y tepee's yn fawr iawn! Rydym wedi dysgu llawer o gemau newydd yn ystod ein sesiynau Iechyd a Lles! Fel rhan o ddod i adnabod ein hunain, dysgom ni'r pwysigrwydd o hylendid. Rydym wedi bod yn dysgu'r pwysigrwydd o brwsio ein dannedd ac wedi joio mas draw yn brwsio ein dannedd yn ddyddiol! Mae ein hathrawon wedi gorfod sicrhau ein bod efo brwshys newydd sawl gwaith yn barod gan ein bod mor dda yn brwsho erbyn hyn! Buom yn gweithio'n galed yn ystod ein ymarferion Nadolig yn ystod y 6 wythnos diwethaf. Rydym wedi dysgu stori'r Nadolig I GYD ar ffurf Pie Corbett ac yn gallu ailadrodd yr hanes yn WYCH! Mae hyn wedi ein helpu i ddysgu llawer o eiriau Cymraeg newydd. Rydym hefyd wedi cael y cyfle i ddysgu arwyddion Makaton newydd ac rydym yn edrych ymlaen at ddysgu mwy ar gyfer ein sioe nesaf! Rydym wedi bod yn brysur yn adnabod a ffurfio llythrennau Tric a Chlic yn ogystal ag adnabod a ffurfio rhifau i 10! Rydym yn edrych ymlaen at dymor llawn prysurdeb a hwyl yn y flwyddyn Newydd. Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth dros y tymor diwethaf a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!




Well, what a busy and fun term we've had in Reception! The children have settled in to full time school brilliantly and we have really enjoyed getting to know you all! Everyone has enjoyed learning new things and making new friends! We have thoroughly enjoyed the opportunity to play adventurous in our outdoor area – we love playing in the tepee's and climbing up them safely! As part of getting to know ourselves, we learnt the importance of hygiene. We have enjoyed brushing our teeth this term, we are so good at it by now our teacher's often have to replenish our toothbrushes! We have been busy recognising and forming the yellow and blue Tric a Chlic letters as well as blending these sounds to read simple words. Everyone has enjoyed our daily CLIC sessions where we have been recognising and forming numbers as well as practicing counting objects. Since half term we have immersed ourselves in Christmas by reading Christmas stories, practicing for our Christmas show and working in Father Christmas's workshop and café. By using Pie Corbett, we are able to retell the story of Christmas, we are amazing at it! We hope you enjoyed our Christmas show, we worked very hard when practising for it! We would like to thank you all for your support over the last term and we'd like to wish you all a Merry Christmas and a Happy New Year!





# Meithrin



Mae wedi bod yn dymor arbennig, ac rydym yn falch o ba mor wych mae'r plant wedi ymgartrefu yn ein hysgol. Maent wedi tyfu'n ddisgyblion caredig, hy-derus ac annibynnol, ac mae wedi bod yn bleser llwyr eu dysgu. Rydym wedi manteisio ar ddysgu yn yr awyr agored eleni, gyda'n hardal darganfod newydd yn dod yn hoff le i lawer. Mae nifer o'r plant wedi mwynhau chwilio am bryfed ac archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae ein hardal chwarae rôl caffi awyr agored hefyd wedi bod yn boblogaidd iawn, gyda'r plant yn paratoi 'prydau', diodydd a hyd yn oed 'bwdinau' blasus i'w ffrindiau. Wrth i ni ddod at ddiwedd y tymor ben-digedig hwn, hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.



It has been a truly fantastic term, and we are incredibly proud of how bril-liantly the children have settled into school life. They have grown into caring, confident and increasingly independent pupils, and it has been an absolute pleasure to teach them. We have made the most of learning outdoors this term, with our developing curiosity area becoming a firm favourite. Many pu-pils have loved searching for bugs and exploring the world around them. Our outdoor café role-play area has also been a big hit, with children enthusiasti-cally preparing 'meals', drinks and even deli-cious pretend desserts for their friends. As we come to the end of this wonderful term, we would like to wish you all a very Merry Christmas and a Happy New Year.







# Blwyddyn 4



**Blwyddyn 4**

Am dymor prysur ym Mlwyddyn 4.  Rydym wedi mwynhau dysgu am y Tuduriaid.  Cafwyd perfformiad gwych gan gwmni Mewn Cymeriad ar ddechrau'r tymor - Harri'r VII. Fe wnaethon fwynhau ysgrifennu a pherfformio sgript mewn arddull Horrible Histories yn y dobsarth.

Yn ein gwersi Gwyddoniaeth rydym wedi bod yn astudio defnyddiau sydd yn arnofio a suddo ac fe wnaethom weithio mewn grwpiau i greu cychod  gan ddefnyddio defnyddiau o'r cartref. Roedd yn hwyl arbrofi gyda'r cychod i weld os oeddent yn arnofio neu'n suddo.

Rydym wedi gorffen ein tymor yn ymarfer a pherfformio ein Sioe Nadolig, Santa ar Streic! Rydym wedi bod wrth ein bodd yn canu, actio a dawnsio. Rydym wedi bod yn dysgu am elw a cholled yn ystod ein wythnos fusnes wrth creu a pharatoi addurn i werthu i rieni.

Hoffwn ddymuno pawb Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.



**Year 4**

It has been a busy term in Year 4. We have enjoyed learning about the Tudors. We had a fantastic performance from the company *Mewn Cymeriad* at the start of the term – *Henry VII*. The children enjoyed writing and performing a script in the style of *Horrible Histories* in the classroom.

In our Science lessons we have been studying materials that float and sink, and we worked in groups to create boats using materials from home. It was fun experimenting with the boats to see whether they would float or sink.



We finished our term by practising and performing our Christmas Show, *Santa on Strike!* We have loved singing, acting and dancing. During our business week we have been learning about profit and loss while creating and preparing a decoration to sell to parents.

We would like to wish everyone a Merry Christmas and a Happy New Year.

# Blwyddyn 1







Am dymor prysur a hwyl ym mlwyddyn 1. Yn ystod yr hanner tymor cyntaf, buom yn dysgu am bobl sy'n ein helpu ac roeddem yn lwcus iawn i gael clywed am swyddi rhai o'n rhieni a chyfeillion. Diolch! Rydym wedi mwynhau ein sesiynau Mercher Mwdlyd yn fawr, yn enwedig ein hymweliad i'r ardd wyllt yn ystod adeg Calan Gaeaf!

Yn ystod yr ail hanner tymor, dysgom am anifeiliaid sy'n gaeafgysgu a buom yn brysur iawn yn paratoi at y Nadolig. Rydym wedi darllen stori'r geni, chwarae rôl siop teganau, ysgrifennu cardiau, creu anrhegion Nadolig ac wrth gwrs dysgu caneuon Nadolig di-ri! Roedden ni'n falch iawn o'n perfformiadau yn ystod ein cyngherddau Nadolig ac yn gobeithio gwnaethoch chi i gyd mwynhau ein gwylio. I ddathlu ein gwaith caled aethom i weld sioe Cyw'r Nadolig. Am drît! Edrychwn ymlaen at dymor newydd llawn antur.

Mwynhewch wyliau'r Nadolig a Nadolig Llawen i chi gyd!







What a busy and fun term we've had in Year 1. During the first half term, we looked at people who help us at home, at school and in the community. We were fortunate enough to hear about the jobs of some of our parents and friends. Thank you! We have also thoroughly enjoyed our Welly Wednesday sessions, especially our visit to the Wild Garden during Halloween!

During the second half term, we learnt about animals that hibernate and have been very busy preparing for the Christmas celebrations. We have read and learnt about the story of the birth of Jesus, played in our toy shop role play, designed and written cards, made presents and of course learnt many new Welsh Christmas songs! We were very proud of our performances during the Christmas concerts and hope that you all enjoyed watching us. To celebrate all of our hard work we went to see Cyw's Christmas show. What a treat! We are now looking forward to a new term full of adventure.

Enjoy your Christmas holidays and we wish you all a very Merry Christmas!

# PRESENOLDEB




**<u>Presenoldeb yn Bwysig – Gadewch i Ni Ddringo'r Tabl!</u>**


Rydym yn falch o rannu bod ein presenoldeb presennol yn sefyll ar **93.24%** hyd at 12fed Rhagfyr – ychydig uwchben ein targed o 93%. Mae hyn yn newyddion da, ac rydym yn diolch i chi am eich cefnogaeth hyd yma.
Fodd bynnag, o'i gymharu â'r ysgolion yn y Fro, rydym yn **31 allan o 47 ysgol**, ac yn **7fed allan o 7 ysgolion cyfrwng Cymraeg y Fro**.
Rydym yn gwybod y gallwn wneud yn well!
**Pam mae presenoldeb yn bwysig:**
Pan fydd plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, maen nhw'n fwy tebygol o:

- Ddatblygu cyfeillgarwch cryf a sgiliau bywyd
- **<u>Siarad a datblygu'r iaith Gymraeg</u>** sy'n hanfodol i'r ysgol hon
- Mwynhau dysgu ac effaith bositif ar les disgyblion
- Cyflawni gwell cynnydd a chyflawniad
- Gwella eu cyfleoedd bywyd yn y tymor hir

**Mae cyfathrebu yn allweddol** – os yw eich plentyn yn sâl neu ddim yn gallu dod i'r ysgol, rhowch wybod i ni ar unwaith. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn leihau absenoldebau heb eu hawdurdodi.
Gadewch i'r tymor nesaf fod ein gorau hyd yma! Gyda'ch cefnogaeth barhaus, gallwn symud i fyny'r tabl a dangos cryfder ein cymuned ysgol. **Mae pob diwrnod yn cyfrif – gadewch i ni anelu'n uwch!**

**<u>Attendance Matters – Let's Climb the Table!</u>**


We are happy to share that our current attendance stands at **93.24%** up to the 12th of December – slightly above our target of 93%. This is good news, and we thank you for your support so far. However, when we compare ourselves across the Vale, we are **31st out of 47 schools**, and **7th out of 7 Welsh-medium schools**. We know we can do better!
**Why attendance matters:**
When children attend school regularly, they are more likely to:




- Form strong friendships and develop life skills
- <u>To speak and develop their Welsh</u> – a vital aspect of life at Sant Curig
- Enjoy their learning and have a positive impact on wellbeing
- Achieve better educational progress and attainment
- Improve their long-term opportunities

**Communication is key** – if your child is unwell or unable to attend, please let us know promptly. Working together, we can reduce unauthorised absences.
Let's make next term our best yet! With your continued support, we can move up the table and show the strength of our school community. **Every day counts – let's aim higher!**

# Sêr y Tymor



**CYMREICTOD**

*Derbyn - Mila ac Albert*

*1 - Ella a Lucia*

*2 - Gruffudd ac Archer*

*3 - Arkin a Nancy*

*4 - Jaxson a Lily-Rose*

*5 - Niko ac Oscar*

*6 - Ava-May a Rheya*



**YMDRECH**

*Derbyn - Freya a Tommie*

*1 - Arthur ac Arianwen*

*2 - Llewelyn ac Imogen*

*3 - Braxton a Heartleigh-Jai*

*4 - Alba-Rose ac Adaline*

*5 - Eden ac Imogen*

*6 - Archie ac Elijah*



**CYFEILLGARWCH**

*Derbyn - Rosie ac Evie*

*1 - Harper-Grace ac Arlo*

*2 - Edison-James a Caleb*

*3 - Elis a Luca*

*4 - Eira ac Illy*

*5 - Hollie ac Ollie*

*6 - Parker a Logan-James*



# Dyddiadau Dates



***Diwrnodau HMS** - 05/01/26, 27/03/26, 01/06/26, 20/07/26

Gŵyl y Banc - Dydd Llun 04/05/26

Diwrnod cyntaf nol i blant yw dydd Mawrth y 6ed o Ionawr.

**_*INSET Day's_** *- 05/01/26, 27/03/26, 01/06/26, 20/07/26*

*Bank Holiday - Monday 04/05/26*

*First day back for children is Tuesday the 6th of January.*

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer o ddyddiau ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Gwanwyn 2026 | *Dydd Mawrth 6ed Ionawr | Dydd Llun 16eg Chwefror | Dydd Gwener 20fed Chwefror | Dydd Gwener 27ain Mawrth | 55 |
| Haf 2026 | Dydd Llun 13eg Ebrill | Dydd Llun 25ain Mai | Dydd Gwener 29ain Mai | *Dydd Llun 20fed Gorffennaf | 65 |

| Term | Begin | Half Term | | End | No. of school days |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Begin | End | | |
| Spring 2026 | *Tuesday 6th January | Monday 16th February | Friday 20th February | Friday 27th March | 55 |
| Summer 2026 | Monday 13th April | Monday 25th May | Friday 29th May | *Monday 20th July | 65 |